
OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2018 Rhif 725 (Cy. 142)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Tir a Halogwyd yn
Ymbelydrol (Addasu Deddfiadau)
(Cymru) (Diwygio) 2018**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Tir a Halogwyd yn Ymbelydrol (Addasu Deddfiadau) (Cymru) 2006 (O.S. 2006/2988 (Cy. 277)) ("Rheoliadau 2006").

Mae Rhan 2A o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p. 43) ("DDA 1990") yn nodi cyfundrefn ar gyfer adnabod tir halogedig a'i adfer. Gwnaeth Rheoliadau 2006 ddarpariaeth i Ran 2A fod yn gymwys, gydag addasiadau, at ddiben ymdrin â niwed y gellir ei briodoli i unrhyw ymbelydredd sy'n perthyn i unrhyw sylwedd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o becyn o fesurau i drosi Cyfarwyddeb y Cyngor 2013/59/Euratom dyddiedig 5 Rhagfyr 2013 sy'n gosod safonau diogelwch sylfaenol ar gyfer diogelu rhag y peryglon sy'n codi o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd ìoneiddio, ac yn diddymu Cyfarwyddebau 89/618/Euratom, 90/641/Euratom, 96/29/Euratom, 97/43/Euratom a 2003/122/Euratom ("y Gyfarwyddeb"). Mae'r Rheoliadau hyn yn trosi rhai o ofynion Erthygl 73(1) o'r Gyfarwyddeb yn ogystal â gwneud diwygiadau i adlewyrchu diffiniadau newydd yn y Gyfarwyddeb.

Mae rheoliadau 3 a 5 yn diwygio'r addasiadau a wnaed gan Reoliadau 2006 i'r diffiniad o adfer yn Rhan 2A o DDA 1990 er mwyn gweithredu rhwymedigaethau o dan Erthygl 73(1)(b) a (e) o'r Gyfarwyddeb. Mae rheoliad 3 hefyd yn diwygio cyfeiriadau at Gyfarwyddeb y Cyngor 96/29/Euratom a ddisodlir gan y Gyfarwyddeb, ac yn gwneud diwygiadau eraill i adlewyrchu'r diffiniadau newydd o "emergency",

“protective measures”, “remedial measures”, “optimisation” a “justification” yn y Gyfarwyddeb.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio cyfeiriadau penodol at yr Ysgrifennydd Gwladol yn yr addasiadau a wnaed gan Reoliadau 2006 fel eu bod yn lle hynny yn cyfeirio at Weinidogion Cymru. Mae'r diwygiadau a wneir gan reoliadau 3(2), 3(4) a 4 o'r Rheoliadau hyn yn sicrhau bod y swyddogaethau penodol fel y'u haddasir yn arferadwy gan Weinidogion Cymru, yn gyson â'r swyddogaethau sylfaenol yn Rhan 2A DDA 1990.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2018 Rhif 725 (Cy. 142)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

Rheoliadau Tir a Halogwyd yn
Ymbelydrol (Addasu Deddfiadau)
(Cymru) (Diwygio) 2018

Gwnaed 13 Mehefin 2018

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 15 Mehefin 2018

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 78A(9) a 78YC o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi a Chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tir a Halogwyd yn Ymbelydrol (Addasu Deddfiadau) (Cymru) (Diwygio) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym 21 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y'u gwneir.

(1) 1990 p. 43. Mewnosodwyd adrannau 78A i 78YC gan adran 57 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Diwygiwyd adran 78YC gan O.S. 2010/675 a 2016/1154. Gweler y diffiniad o "prescribed" a "regulations" yn adran 78A(9). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 78A a 78YC, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 3(1) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Mae'r swyddogaethau hynny bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi (p. 32).

Diwygio Rheoliadau Tir a Halogwyd yn Ymbelydrol (Addasu Deddfiadau) (Cymru) 2006

2.—(1) Mae Rheoliadau Tir a Halogwyd yn Ymbelydrol (Addasu Deddfiadau) (Cymru) 2006(1) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 5.

3.—(1) Mae rheoliad 5 (adran 78A (rhagarweiniol)) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (2), yn yr adran 78A(2) a amnewidiwyd (diffiniad o dir halogedig), yn lle “Secretary of State” rhodder “Welsh Ministers”.

(3) Ym mharagraff (3), yn yr adran 78A(4) a amnewidiwyd (diffiniad o niwed)—

- (a) yn lle “a radiological” rhodder “an”;
- (b) ar ôl “activity” mewnosoder “(except in section 78E(4A)(a))”(2).

(4) Ym mharagraff (4), yn yr adran 78A(5) a amnewidiwyd (atodiad i'r diffiniad o niwed - canllawiau), yn lle “Secretary of State” rhodder “Welsh Ministers”.

(5) Ym mharagraff (6), yn yr adran 78A(7) a amnewidiwyd (diffiniad o adfer), yn lle “cognate expressions” rhodder “references to remediating”.

(6) Ym mharagraff (6), yn yr adran 78A(7A) a amnewidiwyd (diffiniad atodol o adfer)—

- (a) ar ôl paragraff (a), mewnosoder—
 - “(aa) affected members of the public are identified;
 - (ab) assessment of the means available to the individuals identified under paragraph (aa) for controlling their own exposure is made;”;
- (b) hepgorer paragraff (c) a'r “and” ar ei ôl;
- (c) ar ddiwedd paragraff (d), hepgorer yr atalnod llawn a mewnosoder “; and”;
- (d) ar ôl paragraff (d), mewnosoder—
 - “(e) any other appropriate protective or remedial measure is implemented.”

(7) ym mharagraff (8)—

- (a) yn lle paragraff (d), rhodder—
 - “(d) for the definition of “substance”, substitute—

(1) O.S. 2006/2988, a ddiwygiwyd gan O.S. 2007/3250, 2008/521, 2010/2146, 2013/755 a 2016/1154. Mae O.S. 2016/562 hefyd yn gwneud diwygiadau nad ydynt mewn grym eto.

(2) Mae rheoliad 5 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 8(3) o Reoliadau Tir a Halogwyd yn Ymbelydrol (Addasu Deddfiadau) (Cymru) 2006, sy'n addasu adran 78E o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

“substance” means, whether in solid or liquid form or in the form of a gas or vapour, any substance containing radionuclides which have resulted from the after-effects of an emergency or have been processed as part of a past practice or past work activity;”;

(b) yn lle paragraff (e), rhodder—

“(e) after the definition of “unitary authority”, insert—

“and any other word or expression used both in this Part and in Council Directive 2013/59/Euratom, laying down basic safety standards for protection against the dangers arising from exposure to ionising radiation and repealing Council Directives 89/618/Euratom, 90/641/Euratom, 96/29/Euratom, 97/43/Euratom and 2003/122/Euratom⁽¹⁾, has the same meaning for the purposes of this Part as it has in that Directive.””

4. Yn rheoliad 7(2) (adran 78C (adnabod a dynodi safleoedd arbennig)), yn yr adran 78C(10)(a) a amnewidiwyd, yn lle “Secretary of State” rhodder “Welsh Ministers”.

5. Yn rheoliad 8(3) (adran 78E (dyletswydd ar yr awdurdod gorfodi i wneud adfer tir halogedig yn ofynnol etc)), yn lle’r adran 78E(4A) a (4B) a amnewidiwyd, rhodder—

“(4A) Where remediation includes the implementation of a protective or remedial measure, that part of the remediation which consists of the implementation of any such measure may be considered reasonable only—

- (a) where the measure does more good than harm; and
- (b) where the form, scale and duration of the measure is optimised.

(4B) For the purpose of subsection (4A), the form, scale and duration of a protective or remedial measure shall be taken to be optimised if the magnitude of individual doses, the likelihood of exposure and the number of individuals exposed are kept as low as reasonably achievable taking into account the current state of technical knowledge and economic and societal factors.”

(1) OJ Rhif L 13, 17.01.2014, t. 1-73

Lesley Griffiths

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a
Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
13 Mehefin 2018